

Meini Prawf y Gronfa:

Cronfa Cenedlaethau'r Dyfodol Cymdeithas Adeiladu'r Principality

Cronfa Cymru gyfan yw Cronfa Cenedlaethau'r Dyfodol Cymdeithas Adeiladu' Principality a sefydlwyd mewn partneriaeth â Chymdeithas Adeiladu'r Principality gyda'r nod o ddylanwadu'n bositif ar gymdeithas ac ar fywydau pobl ifanc yng Nghymru.

Bydd y gronfa'n cefnogi'r trydydd sector a sefydliadau cymunedol ledled Cymru i helpu / annog

- Mwy o bobl ifanc yn cael mynediad at fwyd iach ac eitemau hanfodol eraill gan gynnwys dillad, deunydd ysgrifennu a thechnoleg.
- Mwy o bobl ifanc i adeiladu cadernid ariannol ar gyfer ansicrwydd bywyd
- Mwy o bobl ifanc yn paratoi ar gyfer y dyfodol a byd gwaith (gan gynnwys meithrin sgiliau)
- Mwy o bobl ifanc yn byw'n gynaliadwy ac yn cymryd rhan mewn gwarchod ein hamgylchedd naturiol
- Mwy o bobl ifanc yn cael y cymorth iechyd meddwl y mae arnynt ei angen

Bydd y prosiectau rydym yn eu cefnogi'n bodloni un o'r themâu hyn –

- Datblygu hyfforddiant a / neu sgiliau ar gyfer cyflogaeth
- Cefnogi iechyd meddwl a llesiant
- Dysgu sgiliau ariannol (e.e. cynilo a chyllidebu)
- Ymwybyddiaeth amgylcheddol a / neu gymdeithasol a chadwraethol
- Cynnal gweithdai ar draws unrhyw un o'r themâu uchod e.e. coginio'n iach ar gyllideb, siopa wythnosol craff,
- Cefnogi ymyriadau sy'n helpu disgyblion/myfyrwyr â bywyd ysgol a rhoi'r cyfleoedd gorau iddyn nhw am lwyddo

Byddwn yn blaenoriaethu sefydliadau a phrosiectau sy'n ei gwneud yn haws i'r rhai sy'n cael eu tanwasanaethu neu'n fregus fanteisio ar y gronfa. Mae hyn yn cynnwys prosiectau sy'n cefnogi unigolion gyda chefnidir o nodweddion gwarchodedig, deddf cydraddoldeb 2010 ac unigolion o rai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru.

Grantiau ar gael

Grantiau hyd at £12,500 y flwyddyn am hyd at 2 flynedd yn cael eu dyfarnu i sefydliadau'r trydydd sector, i gefnogi pobl ifanc o dan 40 mlwydd oed yng Nghymru.

Pwy sy'n gallu ymgeisio?

Sefydliadau sydd ag incwm o dan £500,000 yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

- Grwpiau gyda chyfansoddiad
- Elusennau Cofrestredig a Sefydliadau Corfforedig Elusennol
- Cwmni cyfyngedig gan warant
- Cwmnïau buddiannau cymunedol
- Mentrau cymdeithasol

Bydd yn rhaid i'r sefydliad cyfarfod â'n hisafswm gofynnol, y gellir eu gweld yma - Isafswm Safonau a Ddisgwylir.

Sylwer nad ydych yn gymwys i wneud cais os oes gennych grant gweithredol o'r gronfa hon e.e. a ddyfarnwyd yn y 12 mis diwethaf.

Sut i ymgeisio?

Rhaid i bob ymgeisydd gwblhau ffurflen gais ar lein erbyn 12 hanner dydd ar ddydd Iau 2 Tachwedd 2023. Mae'r ffurflen ar gael ar ein gwefan.

Noder:

- Ni roddir grantiau'n ôl-weithredol h.y. ar gyfer costau sydd eisoes wedi codi cyn derbyn ein llythyr yn cynnig grant a chyn llofnodi a dychwelyd yr amodau a thelerau
- Nid yw grantiau ar gael fel arfer ar gyfer codi arian nac i gefnogi codi arian ar ran grwpiau ac elusennau eraill
- Rhaid gwario'r grant yn llawn o fewn un flwyddyn o dderbyn ein llythyr o gynnig

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gofyn i sefydliadau yng Nghymru ystyried effeithiau tymor hir eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl a cymunedau a gyda'i gilydd a rhwystro problemau parhaus rhag codi, megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.

Rydym yn awyddus i annog sefydliadau i feddwl nid yn unig am y gymuned ble maen nhw'n byw ac yn gweithio ynddi, ond hefyd sut mae'u gwaith yn gydnaws â ac yn cyd-fynd â gwasanaethau a gweithgareddau grwpiau a sefydliadau eraill, rhai gwirfoddol a rhai statudol. Fe hoffen ni i chi ystyried sut y gallai'ch sefydliad weithio gydag eraill er mwyn ychwanegu gwerth a gweithio mewn partneriaeth yn hytrach na chystadlu. Cofiwch egluro yn eich cais eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn ogystal ag ar gyfer y presennol. Fe hoffen ni weld sut mae grwpiau'n gweld effeithiau tymor hir eu penderfyniadau er mwyn gallu gweithio gyda, ar y cyd, ag eraill.